# Pecyn Ymddiriedolwyr

**Tachwedd 2024**

Mae WAHWN yn chwilio am Gyfarwyddwyr-Ymddiriedolwyr newydd i ymuno â Bwrdd ein sefydliad deinamig. Fel y sefydliad cenedlaethol sy’n cefnogi sector y celfyddydau, iechyd a llesiant, rydym wedi ymrwymo i ysgogi datblygiad cynaliadwy a thwf sector y celfyddydau ac iechyd i fod yn ffyniannus, cynrychioliadol a chynhwysol yng Nghymru, gan gynorthwyo gweithwyr proffesiynol y celfyddydau ac iechyd, a hyrwyddo cyfranogiad creadigol. Mae ein haelodaeth o bron i 1000 - nifer sy’n cynyddu’n gyflym - yn cynrychioli’r sectorau celfyddydol, iechyd ac addysg uwch, ac yn weithio ar draws yr ystod lawn o arferion celfyddydol mewn lleoliadau iechyd, y celfyddydau a mannau cymunedol eraill. Mae WAHWN yn falch o'i rôl ganolog o fewn nifer cynyddol o fentrau partneriaeth allweddol a’i allu i ddarparu llais cenedlaethol i'r sector ar lefel strategol.

Rydym yn chwilio am unigolion a fydd yn cynyddu’r ystod o sgiliau, gwybodaeth a safbwyntiau o fewn ein bwrdd. Nid yw ein gweithlu presennol a’n harweinyddiaeth yn adlewyrchu’r amrywiaeth o brofiadau bywyd, ac felly rydym yn arbennig yn annog ceisiadau gan bobl nad yw eu treftadaeth, eu hunaniaeth neu eu llais yn cael eu cynrychioli’n gyffredin yn sectorau’r celfyddydau, iechyd a diwylliant gan gynnwys pobl o hunaniaethau a chefndiroedd mwyafrifol byd-eang.
Yn bwysicaf oll, rydym eisiau pobl sy'n dod â brwdfrydedd, dychymyg ac ymrwymiad i rôl ymddiriedolwr WAHWN. Os ydych yn gwerthfawrogi creadigrwydd fel arf hanfodol i hybu iechyd a lles pobl, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych. Rydym wedi cynnwys mwy o fanylion am WAHWN a’r rôl isod a gallwch ganfod mwy am ein gwaith ar ein gwefan ac ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol (@wahwncymru).

**Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i ymuno â’n bwrdd ymddiriedolwyr yw Ionawr 15 , 2025.** Byddwn yn trefnu sgyrsiau gydag ymgeiswyr ddiwedd Ionawr, gyda’r nod o gadarnhau apwyntiadau cyn diwedd Mawrth 2025.

Mae’r rôl Cyfarwyddwr-Ymddiriedolwr yn wirfoddol a di-dâl. Rydym yn cynnig treuliau i gwrdd â chostau teithio ac i gefnogi anghenion mynediad personol unigol. Gallwch fod wedi eich lleoli unrhyw le yn y Deyrnas Unedig gan y gellir ymuno â mwyafrif y cyfarfodydd ar-lein; gofynnwn i ymddiriedolwyr ymrwymo i ymuno â ni wyneb y wyneb o leiaf unwaith y flwyddyn.

Gwyddom y gall ymgeisio am rôl gymryd llawer o amser a gall y trefniadau fod yn llafurus, felly ein nod yw gwneud hon yn broses gyfeillgar. Os hoffech drafod gwaith WAHWN, y rôl a'ch cais, ac os oes angen unrhyw addasiadau neu gefnogaeth arnoch, trefnwch amser i siarad ag Angela Rogers (Cyfarwyddwr Gweithredol) neu Justine Wheatley, Cadeirydd WAHWN. Gallwch gysylltu â ni drwy:

- e-bost (info@wahwn.cymru)
- neges bersonol ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol (@wahwncymru).

**Cofion Cynnes**

**Justine Wheatley**

**Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr**

**Angela Rogers**

**Prif Weithredwr**

# Am WAHWN

Ers sefydlu yn 2013, Rhwydwaith Celfyddydau, Iechyd a Lles Cymru yw'r corff cymorth sector cenedlaethol ar gyfer y celfyddydau, iechyd a lles yng Nghymru. Rydym yn darparu llais cenedlaethol ar gyfer y sector ar lefel strategol, gan hyrwyddo'r arferion gorau a dylanwadu ac eirioli dros newid a gweithredu polisi. Rydym yn darparu rhaglen flynyddol o eiriolaeth, rhwydweithio a hyfforddiant yn ogystal â rhaglenni arloesol sy'n dylanwadu ar newid ein sector tuag at fwy o degwch er budd pobl, cymunedau ac ymarferwyr yng Nghymru.

Ategir ein gwaith gan ddeddfwriaeth, yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, a phartneriaethau allweddol yn cynnwys Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Conffederasiwn GIG Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru. Mae ein haelodaeth o bron i 1000 yn ehangu'n gyflym, sef gweithwyr proffesiynol ym maes y celfyddydau ac iechyd, yn cynrychioli sectorau'r celfyddydau, iechyd ac Addysg Uwch. Rydym yn gweithio ar draws yr ystod lawn o arferion celfyddyd mewn lleoliadau iechyd, celfyddydau a mannau cymunedol eraill. Mae WAHWN yn elusen ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant. Rydym yn derbyn cyllid blynyddol fel aelod o Bortffolio Cyngor Celfyddydau Cymru.

Ar hyn o bryd
Yn dilyn 9 mlynedd fel rhwydwaith o dan ymbarél sefydliad celfyddydol arall (Engage Cymru), mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn gyfnod o newid mawr i WAHWN. Cawsom ein gwneud yn sefydliad cyfansoddiadolnewydd, ar wahân ac ym mis Gorffennaf 2024, fe wnaethom ennill statws elusennol.

Our key areas of work are:-

- **Rhwydweithio -** cyfarfodydd ar-lein misol a Marchnadoedd Iechyd Creadigol rhanbarthol
- **Hyfforddiant** – cynhadledd Weave ddwywaith y flwyddyn a digwyddiadau hyfforddi ar-lein
- **Rhaglenni -** How Ya Doing? rhaglen lles artistiaid; Rhaglen amrywiaeth o fewn y gweithlu creadigol a grwpiau dysgu cymheiriaid bob pythefnos
- **Eiriolaeth** – cynrychioli'r sector yng Ngrŵp Trawsbleidiol Llywodraeth Cymru ar y Celfyddydau ac Iechyd, cyfrannu'n rheolaidd at gynadleddau a digwyddiadau'r Deyrnas Unedig a rhyngwladol ac ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru

**Yn y cyfnod hwn o newid, rydym yn chwilio am ymddiriedolwyr newydd i'n helpu gyda'r gwaith yma a chefnogi cyfeiriad, strwythur a diwylliant y sefydliad i'r dyfodol.**

# Cefndir

Ar hyn o bryd mae ein tîm staff yn cynnwys un Cyfarwyddwr Gweithredol llawn amser parhaol, a gefnogir gan dair rôl llawrydd rhan amser. Mae ein bwrdd presennol yn cynnwys pedwar o bobl. Y cadeirydd yw Justine Wheatley, sy'n hyfforddwraig llawrydd ac yn ymgynghorydd yn y sector elusennol, ac a fu gynt yn Gyfarwyddwr Gweithredol Peak Cymru. Mae hi wedi bod yn aelod o grŵp llywio WAHWN ers 2013.

Fel arfer penodir ymddiriedolwyr am gyfnod o 3 blynedd, ac uchafswm o chwe blynedd; *gallwn gynnig tymhorau byrrach ar gyfer ymddiriedolwyr ifanc neu ymddiriedolwyr tro cyntaf na allant ymrwymo am gyfnod hwy efallai* . Wrth i ni ddechrau ein taith fel elusen, rydym am recriwtio o leiaf tri ymddiriedolwr newydd.

Byddwch yn ymuno â bwrdd sy'n gyfeillgar ac yn gydweithredol. Mae ein Hymddiriedolwyr yn rhoi sylw gofalus i nodau ein sefydliad; a thrafodaethau yn cael ei hannog a'u croesawu. Ceir strwythur o gyfarfodydd chwarterol ffurfiol, gydag agendâu wedi'u paratoi'n dda. Ein bwriad yw y bydd Staff ac ymddiriedolwyr yn cyfarfod unwaith y flwyddyn ar gyfer 'diwrnod cwrdd i ffwrdd' anffurfiol wedi'i hwyluso wrth i arweinyddiaeth a llywodraethu dyfu, ac rydym yn annog ymddiriedolwyr i ymuno â digwyddiadau rhwydwaith, boed yn bersonol neu'n ddigidol. Credwn mai **ymrwymiad, brwdfrydedd a chwilfrydedd** yw'r rhinweddau pwysicaf i ymddiriedolwyr. Rydym yn elwa'n fawr o ymddiriedolwyr sydd ag ystod o brofiad a gwybodaeth fyw, a byddem wrth ein bodd yn clywed oddi wrth bobl **sydd â phrofiad, diddordeb a / neu sgiliau** mewn:

- **ymarfer clinigol** yn enwedig iechyd meddwl
- **cyllid** a/neu Adnoddau Dynol
- **codi arian**
- **amgylchedd / natur ac iechyd / cynaliadwyedd**

Mae'r profiad o fethu cael mynediad at wasanaethau yn aml yn aml yn fwy amlwg mewn lleoliadau iechyd, ac mae gweithlu ac arweinyddiaeth y celfyddydau ac iechyd presennol yn wyn yn bennaf ac yn aml wedi derbyn addysg at lefel gradd. Er mwyn dod â safbwyntiau amrywiol a chroesawu cyfoeth y gwahanol brofiadau bywyd rydym yn arbennig yn annog ceisiadau gan unrhyw un sy'n teimlo nad yw eu **llais a'u hunaniaeth** yn cael eu cynrychioli'n gyffredin yn y sectorau rydym yn gweithio ynddynt, yn cynnwys pobl :

- gyda hunaniaethau mwyafrifol byd-eang gan gynnwys treftadaeth Affricanaidd, Caribïaidd, y Dwyrain Canol, Dwyrain Asia, De Asiaidd, Cynhenid, Ynysoedd y Môr Tawel, Affro-Latinx a phobl â threftadaeth gymysg
- unigolion o'r gymuned LGBTQIA+
- dan 35 mlwydd oed
- sy'n fyddar, yn anabl neu'n niwroddargyfeiriol
- sy'n rhannu ein hymrwymiad i'r Gymraeg

# Disgrifiad o'r Swydd Ymddiriedolwr

Prif gyfrifoldeb ymddiriedolwr yw hyrwyddo lles gorau WAHWN yn unol â'i amcanion elusennol. Rydyn ni'n elusen newydd, ac mae'r 2 flynedd ddiwethaf wedi bod yn gyfnod o newid mawr i WAHWN. Wrth i ni gofleidio ein statws elusennol newydd, mae angen ymddiriedolwyr arnom a fydd yn cefnogi cyfeiriad, strwythur a diwylliant y sefydliad ar gyfer y dyfodol.

**Prif dasgau a dyletswyddau**

1. Llunio ac adolygu nodau strategol y sefydliad
2. Sicrhau bod y polisïau a'r arferion yn cyd-fynd â'i nodau
3. Sicrhau bod y sefydliad yn gweithredu o fewn gofynion cyfreithiol ac ariannol sefydliad elusennol ac yn ymdrechu i gyflawni'r arferion gorau
4. Hyrwyddo ac eirioli ar ran y sefydliad

**Manyleb Person**

Gofynnwn i aelodau ein bwrdd danysgrifio i Egwyddorion Nolan ar gyfer ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus: anhunanoldeb; uniondeb; gwrthrychedd; atebolrwydd; bod yn agored; gonestrwydd; arweinyddiaeth ac i wneud y canlynol:

- bod yn eiriolwr ar gyfer WAHWN a sector y celfyddydau ac iechyd
- ymrwymo amser ac ymdrech i'r rôl
- mynychu a chymryd rhan weithredol mewn cyfarfodydd bwrdd, boed yn bersonol neu ar-lein
- gwrando ar safbwyntiau eraill yn ogystal â siarad eich meddwl
- derbyn dyletswyddau, cyfrifoldebau a rhwymedigaethau cyfreithiol ymddiriedolwr (mwy am rôl ymddiriedolwr elusen)
- gweithio'n effeithiol fel aelod o dîm a derbyn penderfyniadau ar y cyd
- tanysgrifio i'n datganiad o ymrwymiadau a gwerthoedd ac i'r blaenoriaethau a nodir yn ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol
- cyfrannu at a chymryd rhan mewn hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwirfoddolwyr yw ymddiriedolwyr a gallant hawlio treuliau i gefnogi eu gwaith ar ran WAHWN ond ni allant gael cynnig cyflogaeth. Rhaid i chi fod yn 18 oed neu'n hŷn ac rydym yn croesawu yn gynnes ymddiriedolwyr tro cyntaf. Bydd pob aelod bwrdd newydd yn cael cynnig cymorth a hyfforddiant, a all gynnwys mentora os yw'n briodol.

**Lleoliad**

Er bod rôl ymddiriedolwr yn addas ar gyfer pobl sydd wedi'u lleoli yn unrhyw le yn y Deyrnas Unedig, gan fod ein cyfarfodydd yn rhai hybrid (wyneb yn wyneb / ar-lein), rydym yn awyddus i sicrhau ein bod yn gallu cyfarfod yn gorfforol yng Nghymru o leiaf unwaith y flwyddyn.

# Sut I Ymgeisio

IOs oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'n Bwrdd yn 2025 (neu yn y dyfodol) a chymryd rhan yn ein gwaith, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

Cwblhewch ein ffurflen Mynegi Diddordeb syml, sy'n gofyn pam fod gennych ddiddordeb yn y rôl (dim mwy na 500 gair) ac uwchlwytho CV.

Gallwn dderbyn recordiad fideo neu sain yn darparu'r un wybodaeth.

Rydym hefyd yn gofyn i chi lenwi holiadur Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant dienw, i'n helpu i ddeall mwy am bwy rydym yn eu cyrraedd.

Anfonwch eich cais at info@wahwn.cymru erbyn **15 Ionawr 2025**.

# Cysylltwch â Ni

Gallwch gysylltu â ni drwy:

- e-bost (info@wahwn.cymru)
- neges bersonol ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol (@wahwncymru).